Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

05/12/25

**Annwyl Rieni,**

Fel y gwyddoch, o wythnos nesaf ymlaen, byddwn yn cynnal ein sioeau a gwasanaethau Nadolig. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant o flaen llaw am bob cydweithrediad a chefnogaeth. I chwi fel rhieni am ein cefnogi, i'r plant am fod mor frwdfrydig yn yr ymarferion ac wrth gwrs, i'r staff sydd wedi gweithio mor galed yn paratoi'r plant. Gobeithio y gwnewch chwi oll fwynhau'r arlwy sydd o'ch blaenau.

**Cardiau IQ-** Mae archebion cardiau IQ oll wedyn mynd allan wythnos yma i rieni. Bydd gweddill eitemau e.e. mygiau/lleiniau sychu ac ati yn mynd allan diwedd dydd heddiw, i rai sydd wedi eu harchebu.

**Carol yr Ŵyl-** Mae ychydig o newidiadau wedyn eu cyhoeddi gan y cwmni darlledu ynglŷn â dyddiadau darlledu a chyhoeddi enillwyr eleni. Dyma fydd y drefn newydd.

Dyddiadau Arbennig
- Dydd Iau 18/12 – Clip yn atgoffa o'r 8 carol sydd wedi cyrraedd y rhestr fer yng Nghystadleuaeth Carol yr Ŵyl 2025
- Dydd Mercher 24/12 – Y beirniaid Huw Foulkes a Mabli Tudur yn cyhoeddi'r canlyniad ar *Prynhawn Da*, S4C
- Dydd Mercher 24/12 – Fideo arbennig o'r enillwyr ar *Heno*, S4C, rhwng 7.00–7.30yh ar Noswyl Nadolig.

**Tocynnau Sioe Nadolig Meithrin a Derbyn**- Bydd tocynnau i'r rhai sydd wedi talu dros Parent Pay yn mynd allan mewn amlenni i rieni dydd Llun. Edrychwch allan amdanynt. Bydd tocynnau Sioe Nadolig Blwyddyn 5 a 6 yn mynd allan i rieni diwedd wythnos nesaf.

**Cinio Nadolig Ysgol Pen Barras**- Bydd Cinio Nadolig yr ysgol yn cael ei gynnal dydd Iau nesaf, Rhagfyr 11eg, 2026. Byddwn yn cefnogi elusen 'Achub y Plant' diwrnod yma wrth wisgo siwmperi Nadolig. Gwerthfawrogwn unrhyw gyfraniadau. Cewch gyfrannu drwy ddolen- anfonwn hyn allan wythnos nesaf. Diolch.

Gyda diolch,

**Dyfan Phillips**
PENNAETH
YSGOL PEN BARRAS

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

*05/12/25*

***Dear Parents,***

*As you know, from next week onwards we will be holding our Christmas shows and services. I would like to sincerely thank you in advance for all your cooperation and support. To you as parents for supporting us, to the children for being so enthusiastic in the rehearsals, and of course, to the staff who have worked so hard in preparing the children. I hope you will all enjoy the forthcoming performances.*

***IQ Cards** – All IQ card orders will be sent out to parents this week. The remaining items, e.g. mugs/tea towels etc., will be sent out at the end of today to those who have ordered them.*

***Carol yr Ŵyl Competition** – A few changes have since been announced by the broadcasting company regarding the broadcast dates and the announcement of this year's winners. This will be the new schedule:*

*Special Dates*

- *Thursday 18/12 – Reminder clip of the 8 carols that have reached the shortlist in the Carol of the Festival Competition 2025*
- *Wednesday 24/12 – Judges Huw Foulkes and Mabli Tudur announce the result on Prynhawn Da, S4C*
- *Wednesday 24/12 – Special video of the winners on Heno, S4C, between 7.00–7.30pm on Christmas Eve*

***Nursery and Reception Christmas Show Tickets** – Tickets for those who have paid via Parent Pay will be sent out in envelopes to parents on Monday. Please look out for them. Tickets for the Year 5 and 6 Christmas Show will be sent out to parents at the end of next week.*

***Ysgol Pen Barras Christmas Lunch–** The school Christmas Dinner will be held next Thursday, December 11th, 2026. On this day we will be supporting the 'Save the Children' Appeal by wearing Christmas jumpers. We appreciate any contributions. You will be able to donate via a link – we will send this out next week. Thank you.*

*With thanks,*

***Dyfan Phillips***
*Headteacher*
*Ysgol Pen Barras*